**Astudiaeth Achos**
**Cyngor Sir Gaerfyrddin**

**Gweithgaredd y Prosiect:**
Gweithio gydag Adrannau Gweithgareddau Awyr Agored, Chwaraeon a Hamdden, a Gwasanaethau Diwylliant, ar hyd a lled cyfarwyddiaethau Cymunedau a Llefydd a Seilwaith Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Fel un o'r Cynghorau mwyaf rydym yn gweithio gyda hwy, mae gan Sir Gaerfyrddin eisoes nifer o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws amrywiol adrannau a chyfarwyddiaethau. Mewn rhai ffyrdd rydym yn gweithredu'n debyg i Geredigion o ran mai'r gwaith cychwynnol rydym wedi ei adnabod o fewn y gyfarwyddiaeth Hamdden oedd bod diffyg gwybodaeth ac angen am eglurder ynghylch beth oedd pob adran yn ei wneud, felly fe wnaethom ddatblygu cyfres o gwestiynau wedi'u strwythuro yn y lle cyntaf er mwyn cwmpasu'r hyn sy'n digwydd a sicrhau cysondeb o ran y cynnig a'r gefnogaeth i wirfoddolwyr.

**Crynodeb o'r prosiect**

Ein cynllun prosiect cychwynnol gyda sir Gaerfyrddin oedd i gwmpasu a choladu gwybodaeth am gyfleoedd oedd yn bodoli eisoes, casglu enghreifftiau o arfer da wrth reoli gweithgaredd gwirfoddoli oedd yn bodoli eisoes a chefnogi cyflwyno meddalwedd gwirfoddoli newydd.

Yn gryno - fe wnaethom gytuno:

1. I ymarfer cwmpasu cychwynnol ar draws y Gwasanaethau Hamdden - Gweithgareddau Awyr Agored, Diwylliant, Chwaraeon a Hamdden - er mwyn darganfod beth mae'r naill a'r llall yn ei wneud o safbwynt gwirfoddoli a sut i'w reoli.
    a. Nod yr ymarfer cwmpasu yw dod i ddeall ystod a statws cyfleoedd gwirfoddoli oedd yn cael eu harwain gan y Cyngor ar draws y Cyngor a rhannu arfer gorau a gwybodaeth er mwyn sicrhau ansawdd a safon y profiad ar gyfer gwirfoddolwyr a gweithwyr y Cyngor.
    b. LlyG i gynhyrchu drafft cychwynnol/penawdau o wybodaeth i gael eu casglu, eu dosbarthu a'u gwneud yn derfynol, gyda chysylltiadau ar gyfer pob adran yn cael eu darparu gan Gyngor Sir Gaerfyrddin.
    c. Byddai'r ymarfer hefyd yn cynnwys cyfleoedd ar dir/eiddo sy'n berchen i'r Cyngor ond yn cael eu harwain gan sefydliadau trydydd sector.
2. Catalogio a chofnodi cynnydd platfform gwirfoddoli newydd ar-lein a chefnogi'r potensial i hwn gael ei ymestyn i weddill y gyfarwyddiaeth Hamdden?

1. Ymarfer Cwmpasu

Llenwodd staff ar draws y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Hamdden daenlen/arolwg o'u cynigion gwirfoddoli o recriwtio, drwy brosesau, systemau a chefnogaeth.

Llenwodd staff ar draws y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Hamdden daenlen/arolwg o'u cynigion gwirfoddoli o recriwtio, a thrwy brosesau, systemau a chefnogaeth, rydym wedi adnabod meysydd lle gall adrannau helpu ei gilydd er mwyn gwella cysondeb, gan symud ymlaen drwy'r porth.

2. [Platfform Gwirfoddoli Ar-lein]

Roedd y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Hamdden eisoes yn cynllunio i roi porth gwirfoddoli penodol i'r Cyngor ar waith, Yn y lle cyntaf, dim ond ar gyfer cyfran fechan o'r gyfarwyddiaeth Hamdden roedd hwn am fod, ond wrth i bobl o adrannau eraill ddechrau siarad o amgylch bwrdd (wedi'i hwyluso gan Martyn Davies, Llais y Goedwig), daeth yn eglur y byddai'n fwy o fudd pe bai'n cael ei ehangu i gynnwys mwy o gyfleoedd. Roedd theatrau yn benodol yn awyddus i fod yn rhan ohono ond doedd dim llawer o wirfoddolwyr yn yr adran. Roedd yr adran Gweithgareddau Awyr Agored yn awyddus yn y lle cyntaf ond roedd ganddynt eu systemau eu hunain oedd yn gweithio'n well iddynt hwy. Roeddem yn cynllunio i ddilyn y platfform wrth iddo gael ei roi ar waith a chwilio am ffyrdd i integreiddio gyda phyrth eraill oedd yn bodoli eisoes.

Gan weithredu fel 'siop ar gyfer bob dim' i wirfoddolwyr, mae'n ceisio dwyn ynghyd gyfleoedd o fewn y cyngor, yn ogystal â'r cyfleoedd allanol. Nid dim ond ar gyfer mannau gwyrdd, ond hefyd - er enghraifft - ar gyfer Theatrau ac Amgueddfeydd.

Mae'r porth gwirfoddoli mae'r gyfarwyddiaeth wedi ei roi ar waith yn awr yn weithredol a byddwn yn cefnogi mynediad iddo drwy feysydd eraill o fewn y gwasanaeth.

Mae gan hamdden lawer o raglenni er enghraifft, gan gynnwys profiad gwaith, gweithgorau rheolaidd, a chyfleoedd untro.




**Beth weithiodd yn dda, beth wnaeth ddim gweithio mor dda:**

Mae sir Gaerfyrddin wedi bod / yn awyddus i weithio gyda ni, ond nid dyma'r cyngor sydd angen y mwyaf o gefnogaeth, fwy na thebyg.

Mae eu capasiti'n golygu eu bod yn gymharol gyfforddus gyda systemau a phrosesau sy'n bodoli eisoes, ac maent wedi gallu rhoi amser ac adnoddau er mwyn gwneud gwelliannau. Mae hefyd wedi golygu bod ganddynt y capasiti i ymgysylltu gyda ni. Y gwrthgyferbyniad yma sydd wedi bod yn her i ni. Mae'r rhai sydd wedi bod â'r amser i ymgysylltu gyda ni hefyd eisoes wedi bod â'r amser i ymgysylltu gyda'u gwirfoddolwyr. Dyw'r rhai sydd heb gapasiti ddim ychwaith gyda'r capasiti i ymgymryd â gwaith ychwanegol gyda ni.

Ynghylch: Yr arolwg a chwmpasu - roedd gweithgareddau Awyr Agored, Gwasanaethau Diwylliannol a Hamdden yn arbennig o gyflym wrth ymateb, ond er gwaethaf hyn, dywedodd Gweithgareddau

Awyr Agored eu bod yn fuan wedi hynny eu bod yn eithaf hapus gyda'u prosesau ac nad oeddent am symud ymlaen at system ganolog.

Ynghylch y porth ei hun:
Cryfder y gwaith hwn yw hwyluso adrannau sydd wedi digwydd gyda chefnogaeth Martyn, gan alluogi deilliant mwy holistig oedd yn canolbwyntio ar y gwirfoddolwr.
Gan weithredu fel 'siop un stop' i wirfoddolwyr, mae'n ceisio dwyn ynghyd gyfleoedd o fewn y cyngor, yn ogystal â'r cyfleoedd allanol. Nid dim ond ar gyfer mannau gwyrdd, ond hefyd - er enghraifft - ar gyfer Theatrau ac Amgueddfeydd.

**Beth a ddysgwyd:**

Mae ffwythiant y porth yn ei osod ar wahân o ddewisiadau y gellid eu cymharu, megis Gwirfoddoli Cymru. Gall gwirfoddolwyr gofrestru eu diddordeb a gwneud cais am rolau i gyd yn un lle. Os yw'r rolau angen ceisiadau a chyfweliadau, bydd llawer o hyn hefyd yn cael ei wneud drwy'r porth. Gall y system naill ai gael ei defnyddio i reoli gwirfoddolwyr neu dim ond i hysbysebu rolau a fydd wedyn yn cael eu rheoli gan y rheolwr Gwirfoddoli os oes un yn bodoli. Mae yna hefyd rannau o'r wefan sydd ond yn gallu cael eu cyrchu gan staff y cyngor yn unig, lle gellir ychwanegu / cael mynediad at nodiadau cyn digwyddiad ac er mwyn helpu eu swyddog gwirfoddoli.

Ar gyfer gwirfoddolwyr rheolaidd mae yna opsiwn ar gyfer cofrestru 'fesul sesiwn' neu ar gyfer blociau o sesiynau. Gellir ei ddefnyddio i reoli digwyddiad mawr gyda nifer o rolau gwirfoddoli. Neu raglen hirdymor megis eu 'Rhaglen Hyrwyddwyr'. O safbwynt data a gasglwyd, gall y porth gofnodi oriau a wirfoddolwyd, a gellir hefyd ei ddefnyddio i gasglu adborth gan y gwirfoddolwr ac amdano/amdani. Gellir ei ddefnyddio er mwyn cyfathrebu gyda gwirfoddolwyr, i anfon testunau drwy'r system, er bod y rhan fwyaf yn dewis cyfathrebu drwy Whatsapp er mwyn cyfleustra. Gellir ei osod er mwyn anfon negeseuon testun i atgoffa y diwrnod cyn sesiwn.

Mae yna hefyd y capasiti ar gyfer darparu hyfforddiant os oes angen. Cwestiwn o amgylch sut y gellid darparu hyfforddiant, a all fod yn rhan o'n gwaith gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

**Casgliad:**

Y gobaith wrth fynd i mewn i'r broses ganolog hon sydd wedi'i symleiddio yw bod y capasiti i reoli mwy o wirfoddolwyr wedi cynyddu.

Os yw'r broses ei hun yn cael ei wneud yn haws, yna mae yna bosibilrwydd yma i wella'r cynnig gwirfoddoli, gan ei gwneud hi'n haws i dimau gofrestru gwirfoddolwyr ar gyfer meysydd gwaith na fyddech chi o bosib wedi bod yn ei wneud yn flaenorol. Gallwn gyfrannu at waith ar yr ehangiad hwn gyda'r adrannau unigol wrth symud ymlaen.

Y canlyniad yw proses sy'n ffocysu ar y gwirfoddolwr yn hytrach na chanolbwyntio ar y sir/y cyngor. Gellir gweld hyn o faint o gyfleoedd allanol sy'n gysylltiedig. Mae taith y gwirfoddolwr wedi cael ei blaenoriaethu, gan ddod o hyd i gyfle sy'n gweithio iddynt hwy.

O'r pwynt yma ymlaen, mae'n bosib y byddwn eisiau cynnig hyfforddiant i'r gwirfoddolwyr, a sgiliau ymarferol ar gyfer arweinwyr gwirfoddolwyr. Efallai, o bosib, hefyd er mwyn helpu'r gyfarwyddiaeth hamdden i asesu a ydynt angen ehangu eu cynnig gwirfoddoli, neu adolygu'r meysydd y maent yn defnyddio gwirfoddolwyr er mwyn cael y budd mwyaf, nawr bod y prosesau wedi cael eu symleiddio.

Byddai hefyd o gymorth pe bai rheolwyr platfform ar-lein fel hwn wedi eu canoli o fewn y cyngor, gan dynnu unrhyw gyfrifoldeb oddi ar adrannau sydd, ar eu pen eu hunain, dan dipyn o bwysau.